RHAN 2

ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD

Erthygl 1 Y Cyfansoddiad

1.01 Pwerau'r Cyngor

Bydd y Cyngor yn ymarfer ei holl bwerau a'i ddyletswyddau yn unol â'r ddeddf a'r Cyfansoddiad hwn.

1.02 Y Cyfansoddiad

Y Cyfansoddiad hwn, a'i holl atodiadau, yw Cyfansoddiad Cyngor Sir Caerfyrddin.

1.03 Pwrpas y Cyfansoddiad

Pwrpas y Cyfansoddiad yw:

1. Rhoi'r trefniadau a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth moderneiddio llywodraeth leol ar waith yn ffurfiol

2. galluogi'r Cyngor i ddarparu arweiniad clir i'r gymuned mewn partneriaeth â dinasyddion, busnesau a chyrff eraill;

3. ennyn dinasyddion i fod â rhan yn y broses o lunio penderfyniadau awdurdodau lleol;

4. cynorthwyo cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol;

5. galluogi i benderfyniadau gael eu cymryd yn effeithlon ac yn effeithiol;

6. creu dull pwerus ac effeithiol o sicrhau bod y cyhoedd yn gallu dal y rhai sy'n llunio penderfyniadau i gyfrif;

7. sicrhau na fydd unrhyw aelod yn adolygu nac yn craffu ar benderfyniad yr oedd ef/hi â rhan uniongyrchol mewn llunio'r penderfyniad hwnnw;

8. sicrhau bod y rhai hynny sy'n gyfrifol am lunio penderfyniadau yn hawdd eu hadnabod gan bobl leol a'u bod yn egluro'r rhesymau am benderfyniadau; a

9. rhoi dull o wella'r modd y darperir gwasanaethau i'r gymuned.

1.04 Dehongli ac Adolygu'r Cyfansoddiad

Lle bo'r Cyfansoddiad yn caniatáu i'r Cyngor ddewis rhwng gwahanol ddulliau o weithredu, bydd y Cyngor bob amser yn dewis yr un sydd agosaf, yn ei farn ef, at y pwrpasau a nodir uchod.

Bydd y Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r modd y gweithredir y Cyfansoddiad fel y'i cyflwynir yn Erthygl 15.